**Climate Adaptation**

Ymaddasu i Newid Hinsawdd

Sir Benfro
PCF
Pembrokeshire Coastal Forum
Fforwm Arfordir

# Sut I Gyd-greu Rheolau Sylfaenol ar Gyfer Cyfarfod

Sut i gyd-greu rheolau sylfaenol ar gyfer cyfarfod

Mae rheolau sylfaenol yn helpu i osod disgwyliadau clir ar gyfer cyfarfod, gan sicrhau ei fod yn parhau i gadw ffocws, yn barchus ac yn effeithlon. Pan fydd pawb yn helpu i greu'r rheolau hyn, mae cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi, gan arwain at ymdeimlad cryfach o berchnogaeth ac atebolrwydd. Mae'r broses hon hefyd yn caniatáu i'r cyfarfod gael ei deilwra i anghenion unigryw ac arddulliau gweithio pob cyfranogwr.

Mae hwn yn ganllaw cyflym i'ch helpu i gyd-greu rheolau sylfaenol ar gyfer cyfarfodydd.

Nodi anghenion a hoffterau cyfranogwyr

Wrth osod rheolau sylfaenol ar gyfer cyfarfod, mae'n bwysig ystyried anghenion ac arddulliau gweithio cyfranogwyr. Dechreuwch trwy drafod yr anghenion hyn i sicrhau bod pawb yn gallu cyfrannu'n effeithiol. Gallai hyn gynnwys:

• Gwahanol ffyrdd o brosesu gwybodaeth – dysgu gweledol, clywedol neu ymarferol. Efallai y bydd angen mwy o amser ar rai cyfranogwyr i feddwl a phrosesu gwybodaeth cyn ymateb, tra bydd eraill yn ffynnu mewn trafodaethau cyflym.

• Gwahanol ffyrdd o gymryd rhan – fel mewnbwn ysgrifenedig cyn y cyfarfod, trafodaeth fyw neu adborth ar ôl y cyfarfod.

• Caniatáu amser ar gyfer myfyrio a phrosesu (fel seibiannau neu egwyliau), fel y gall yr holl gyfranogwyr ymgysylltu ar eu cyflymder eu hunain.

• Defnyddio dulliau cyfathrebu clir a hygyrch, fel darparu agendâu ymlaen llaw a chynnig deunyddiau mewn fformatau lluosog.

Rhannu barn ar ba reolau sylfaenol ddylai fod yn eu lle

Anogwch bawb i rannu eu syniadau ar y rheolau sylfaenol ar gyfer y cyfarfod. Dylai'r rheolau hyn helpu i greu amgylchedd parchus a chynhyrchiol. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

• Gwrando'n barchus

• Un person yn siarad ar y tro

- Cadw at y pwnc
- Annog cyfranogiad
- Cynnal cyfrinachedd

Blaenoriaethu a chytuno ar y rheolau sylfaenol

Ar ôl casglu awgrymiadau ar gyfer rheolau sylfaenol y cyfarfod, cydweithiwch i flaenoriaethu pa reolau sylfaenol sydd bwysicaf i lwyddiant y grŵp. Gwnewch yn siŵr bod pawb yn gallu lleisio eu barn a chytuno ar y set derfynol o reolau.

Dogfennu ac arddangos y rheolau sylfaenol

Unwaith y cytunir ar y rheolau sylfaenol, dogfennwch nhw mewn lleoliad gweladwy lle gall pawb sy'n cymryd rhan eu gweld trwy gydol y cyfarfod. Gellir gwneud hyn ar fwrdd gwyn, siart droi neu ddogfen ddigidol a rennir. Mae cadw'r rheolau'n weladwy yn helpu i atgoffa cyfranogwyr o'r safonau y cytunwyd arnynt.